**Asesiad Risg Cynllun STEM Gogledd**

Cydnabyddir y bydd cyflwyno'r rhaglen yn arwain at risgiau penodol. Cynhelir asesiad risg llawn mewn perthynas â phob gweithgaredd cyn eu gweithredu. Mae cyflwyno meysydd craidd y rhaglen hon yng Ngwynedd yn ein rhoi mewn sefyllfa gref o fod wedi gweld ac ymdopi â nifer o risgiau allweddol ac mae gennym brofiad o achub y blaen ar y sefyllfa ac atal yr un risgiau rhag digwydd. Mae pob risg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen hon wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio system Asesiad Risg Cyngor Gwynedd. Mae hon yn system gydnabyddedig er mwyn canfod, asesu a rheoli'r gwahanol fathau o risgiau ac mae'r holl swyddogion prosiect wedi cael hyfforddiant i weithredu'r system.

Mae'r tabl a ganlyn yn datgan pob risg a nodwyd mewn perthynas â'r rhaglen hon a sut fydd pob un o'r rhain yn cael eu rheoli. Mae'r lefel o risg a nodir yn dilyn y system a ganlyn:

| **Effaith** | Trychinebus (1) | Sylweddol (2) | Arwyddocaol (3) | Bychan (4) |
|---|---|---|---|---|
| **Siawns** | | | | |
| Bron yn Sicr (A) | Blaenoriaeth Uchel Iawn | Blaenoriaeth Uchel Iawn | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Isel |
| Hynod Debygol (B) | Blaenoriaeth Uchel Iawn | Blaenoriaeth Uchel Iawn | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Isel |
| Tebygol (C) | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel |
| Annhebygol (D) | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel |
| Annhebygol Iawn (E) | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | Blaenoriaeth Isel |

Allwedd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth Uchel Iawn | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel |

Dyddiad yr Asesiad :- 24 Ionawr 2017

| Risg | Y Lefel o Risg a Nodwyd | Wedi'i Goresgyn / Lleihau Gan |
|---|---|---|
| Risgiau Gweithredol | | |
| Lefel isel o ddiddordeb yn y prosiect gan ysgolion | E1 – Blaenoriaeth Ganolig | Cyflwyno'r prosiect i Grwpiau Penaethiaid ayyb.<br>Hyrwyddo buddion y prosiect, y gwerth ychwanegol. |
| Problemau wrth recriwtio disgyblion yn yr ysgolion | E1 – Blaenoriaeth Ganolig | Sefydlu a chytuno ar broses gyfeirio i'r prosiect – ysgolion a |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mentoriaid STEM.<br><br>Swyddog monitro mewn lle i fonitro cyrhaeddiad yn erbyn targedau. |
| Newidiadau mewn personél oherwydd cytundebau byr | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Cynllun parhad gwasanaeth mewn lle er mwyn sicrhau fod y prosiect yn parhau i weithredu.<br><br>Canllawiau desg manwl mewn lle ac yn hawdd i'w ddilyn os bydd newid mewn staff. |
| Gweithio gyda pobl ifanc | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Bydd yn ofynnol i'r cynllun weithio yn unol â strwythurau a rheoliadau'r Gweithio'n Ddiogel y Cyngor / Ysgolion.<br><br>Asesiad risg i gael ei gwblhau ar gyfer gweithgareddau'r prosiect. |
| Rheoli'r Cynllun | | |
| Rheoli Cynllun Rhanbarthol | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Profiad blaenorol o reoli prosiectau Rhanbarthol o fewn yr Adran.<br><br>Trefniadau Monitro Manwl i'w rhoi mewn lle.<br><br>Cynllun Cau prosiect i fod mewn lle ar gychwyn y prosiect. |
| Capasiti i Reoli'r Cynllun oddi fewn i'r awdurdod lleol. | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Cadarnhau trefniadau rheoli mewnol. |
| Diffyg perfformiad neu danberfformiad y prosiect (yn cynnwys diffyg cyrraedd a thargedau) | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Rheolwr prosiect i gymryd cyfrifoldeb dros reolaeth dydd i ddydd y prosiect, a hynny y gael ei oruchwylio gan y Bwrdd Rhanbarthol.<br><br>Swyddog Monitro mewn lle – bydd sesiynau monitro rheolaidd yn cymryd lle er mwyn monitro cynnydd.<br><br>Cynllun Rheoli Risg ar gyfer y Cynllun mewn lle.<br><br>Sesiwn anwytho manwl i bob aelod o staff i egluro gofynion |

| | | |
|---|---|---|
| | | adrodd ESF, amlinellu rôl pob aelod o staff o fewn y tîm.<br>Trafod unrhyw bryderon gyda swyddogion perthnasol yn WEFO. |
| Camddehongli allbynnau'r rhaglen / Hawlio allbynnau anghymwys heb y dystiolaeth briodol | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Amlinellu'r holl anghenion yn ystod y sesiwn anwytho<br>Darparu Canllawiau Desg i bob aelod o staff<br>Swyddog Monitro a Rheolwr Prosiect i fonitro pob hawliad cyn ei gyflwyno er mwyn gwirio cymhwysedd pob allbwn. |
| Cadw dogfennau | E2 – Blaenoriaeth Ganolig | Pwysigrwydd cadw dogfennau yn rhan o'r Sesiwn Anwytho.<br>Polisi Cadw Dogfennau manwl mewn lle.<br>Monitro dogfennau fel rhan o ymweliadau monitro rheolaidd. |
| Risgiau Trefniadol ac Ariannol | | |
| Tan wario / Gôr wario | C2 – Blaenoriaeth Uchel | Canllawiau manwl i'w rhoi mewn lle ac ar waith.<br>Swyddog Cyllid i fonitro gwariant yn rheolaidd ac adrodd i'r Rheolwr Prosiect er mwyn trafod gyda WEFO.<br>Cyflwyno hawliau ariannol rheoliad i WEFO.<br>Cyflwyno ail broffil yn ôl yr angen. |
| Y brif risg drefniadol i'r awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y rhaglen hon yw cyflogi swyddogion | D4 – Blaenoriaeth Isel | Pob awdurdod lleol yn gyflogwr tymor hir gyda systemau a pholisïau recriwtio a chyflogi datblygedig fel ein bod yn ystyried y risg o unrhyw fater cyflogaeth fel risg isel iawn.<br>Caiff costau diswyddo eu cynnwys yn y pecyn iawndal. Bydd angen cytundeb y Cyngor i ymgymryd â'r risg hon, ac ysgwyddo unrhyw gostau diswyddo sydd uwchlaw'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfraniad ESF. |
| Risgiau ariannol i bob awdurdod lleol sy'n cymryd rhan | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Angen trefniadau mewn lle ar gyfer ymdopi gyda system iawndal Simplifed Costs gan yr Uned Gyllid.<br>Sicrhau cydymffurfio gyda Gweithdrefnau a Rheoliadau Ariannol Ewrop a'r Awdurdod gyda chefnogaeth yr Uned Gyllid a Thîm Ewrop. |
| Arian cyfatebol | D2 – Blaenoriaeth Ganolig | Sicrhau fod holl arian cyfatebol yn cael ei gadarnhau ar gychwyn y prosiect.<br>Sicrhau fod y dystiolaeth gywir yn cael ei chadw. |
| Risgiau Amserlen y Rhaglen | | |
| Llithriad yn amserlen y prosiect | D4 – Blaenoriaeth Isel | Rhaglenni Gwaith penodol yn cael eu llunio ar gyfer elfennau amrywiol y cynllun. |
| Brexit yn cael effaith ar Gau'r prosiect yn fuan | D2 - Blaenoriaeth Ganolig | Cynllun Cau Prosiect Manwl i'w roi mewn lle yn cymryd ystyriaeth o'r risg yma. |
| Risgiau Cymorth y Wladwriaeth | | |
| Mae'n ofynnol i'r prosiect gael ei weithredu yn unol â rheoliadau Cymorth y Wladwriaeth. | D2 – Risg Ganolig | Bwriedir caffael ar raddfa fechan ar gyfer y cynllun yn lleol gan ddilyn ein rheoliadau ariannol. Bydd gwiriadau Cymorth y Wladwriaeth yn angenrheidiol ar unrhyw ddarpariaeth a brynir gan 3ydd parti - mae trefniadau gwiriadau o'r fath yn weithredol yn yr adran yn barod.<br>Byddwn yn gweithredu gweithdrefnau monitro llym er mwyn sicrhau bod y rhai sydd i elwa hefyd yn ymwybodol o ofynion cymorth y wladwriaeth. |